29 Ebrill 2024

Annwyl

**ATISN 20415 honiad o mabwysiadu diffiniad APPG o Islamoffobia gan Lywodraeth Cymru.**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 29 Mawrth. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

A allai Llywodraeth Cymru ddarparu'r wybodaeth ganlynol o dan delerau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000:

- Nodwch a yw'n wir ai peidio eich bod wedi mabwysiadu diffiniad APPG o Islamoffobia (h.y. y diffiniad o Islamoffobia a gynhyrchir gan yr APPG ar Fwslimiaid Prydain ac a hyrwyddir gan MEND), a honnir yn y fideo hwn o 14 Ebrill 2023 gan Sharifa Rahman, Is-gadeirydd Gweithgor Caerdydd ar gyfer MEND (Ymgysylltu a Datblygiad Mwslimaidd).
- Os mai'r ateb yw ie bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad, rhowch yr holl ohebiaeth gyda Sharifah Rahman, MEND a'r holl sefydliadau eraill a ofynnodd i chi fabwysiadu'r diffiniad, yr holl agendâu cyfarfodydd, cofnodion a phapurau ar gyfer cyfarfodydd lle trafodwyd y cwestiwn a ddylid mabwysiadu'r diffiniad hwn ai peidio; ac a geisiodd Llywodraeth Cymru gyngor Llywodraeth y DU ar unrhyw adeg, neu'r Comisiwn Gwrthweithio Eithafiaeth, ar y mater hwn.

**Ein hymateb**

Gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu diffiniad APPG o Islamoffobia. O ganlyniad, nid oes gennym unrhyw gofnodion papur nac electronig sy'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r diffiniad hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir